# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014-15

Rheolwr Perthynas: Sarah Jones
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Ffôn: 0300 062 8383

## Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei rôl yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Cynhyrchwyd yr adroddiad blynyddol hwn gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan AGIC rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Mawrth 2015 yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'r gweithgareddau yn y bwrdd iechyd hwn a byrddau iechyd/ymddiriedolaethau eraill yw:

- Mae profiad dinasyddion o ofal iechyd yn gwella
- Mae dinasyddion yn gallu cael gwybodaeth glir ac amserol am ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Mae dinasyddion yn hyderus bod gwaith arolygu a rheoleiddio'r sector gofal iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn gydgysylltiedig, ac yn ychwanegu gwerth

## Trosolwg

Nid yw AGIC wedi cynnal unrhyw arolygiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o gwbl eleni, fodd bynnag, cynhaliwyd pedwar o'r Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol mewn Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Yn rhai o'r rhain, gwnaed arsylwadau ar ryngweithiadau gydag Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## Themâu  Allweddol ac Arferion Nodedig

Yn ystod ein harolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys, gwelsom y canlynol:

- Perthynas waith gref rhwng staff Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys a staff ambiwlans.
- Mae arferion gwahanol ar gyfer trosglwyddo mewn sefydliadau gwahanol.  Yn ystod cyfnodau prysur mewn dau ysbyty, roedd tuedd i'r ambiwlansys drosglwyddo'r cleifion wrth iddynt gyrraedd.  Yna , roedd y cleifion hyn yn derbyn gofal cychwynnol yng nghoridorau'r Adrannau Damweiniau ac Achosion Brys. Mewn ysbyty arall, roedd ambiwlansys yn aros tu allan i'r ysbyty (gyda'r cleifion yn yr ambiwlans) nes bod gan yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys gapasiti i dderbyn y cleifion, ac yn yr ysbyty arall, ni welwyd yr arferion hyn o gwbl am nad oedd hi'n brysur pan gynhaliodd AGIC ei harolygiad.

## Llywodraethu ac Atebolrwydd

Gweledigaeth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yw "Gwasanaeth ambiwlans i bobl Cymru sy'n cyflenwi gofal o ansawdd uchel lle bynnag a phryd bynnag y mae ei angen".

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd ac a gyflwynwyd i AGIC gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar gyfer 2013-2014 yn nodi'r canlynol:

Fel rhan o'r thema *Pennu'r Cyfeiriad*, roedd y sefydliad o'r farn ei fod wedi dangos lefel 3 mewn cynnydd - sef wrthi'n datblygu cynlluniau a phrosesau a gall ddangos cynnydd yn rhai o'r meysydd allweddol i'w gwella.  O dan blaenoriaethau ar gyfer gwella, mae'r sefydliad wedi cynnwys gwybodaeth am ei gynlluniau newidiadau a'i gynlluniau gwella uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar y meysydd strategol canlynol:

- Gwell ymgysylltiad â byrddau iechyd lleol a chleifion;
- Archwilio cyfleoedd i gael mynediad at ofal amgen a llwybrau uniongyrchol gyda byrddau iechyd lleol;
- Ymwreiddio diwylliant clinigol yn seiliedig ar arweinyddiaeth glinigol gadarn;
- Gwaith gofal dirybudd gyda phartneriaid byrddau iechyd lleol;
- Gwella'r datblygiad proffesiynol parhaus a dulliau cymorth i staff;
- Cefnogi iechyd, diogelwch a lles staff;
- Gwelliant gweithredol mewn amseroedd ymateb;
- Datblygu  modelau lleoli ac adnoddau;
- Cydweddu'r adnoddau â'r galw;
- Cryfhau trefniadau llywodraethu a chydymffurfio; a
- Buddsoddiad cost effeithiol mewn ystadau, fflydoedd ac offer clinigol.

O dan y thema *Galluogi Cyflenwi*, roedd y sefydliad o'r farn ei fod wedi dangos lefel 3 mewn cynnydd - wrthi'n datblygu cynlluniau a phrosesau a gall ddangos cynnydd yn rhai o'u meysydd allweddol i'w gwella. Tynnwyd sylw at nifer fawr o gamau gweithredu ar gyfer sicrhau gwelliant, gan gynnwys gweithredu amcanion tymor canolig y cynllun busnes (yn benodol yr hyn a nodwyd i'w gyflawni yn ystod y flwyddyn gyntaf), rhoi strategaeth cyfathrebu ar waith, datblygiadau ystadau a fflydoedd/caffael cerbydau.

O dan y thema *Cyflenwi Canlyniadau, Cyflenwi Rhagoriaeth*, roedd y sefydliad o'r farn ei fod wedi dangos lefel 3 mewn cynnydd - wrthi'n datblygu cynlluniau a phrosesau a gall ddangos cynnydd yn rhai o'u meysydd allweddol i'w gwella. Nodwyd nifer o feysydd lle bu gwelliant gan gynnwys rhoi elfennau cychwynnol y Strategaeth Glinigol ar waith (a gymeradwywyd gan Fwrdd yr Ymddiriedolaeth a Llywodraeth Cymru yn 2013).

Yn ogystal â hyn, gwnaeth casgliadau Adroddiad Archwilio Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2013 nodi bod yr ymddiriedolaeth wedi ailystyried ei phroses o bennu cyllidebau ac yn cydnabod bod angen gwneud mwy o waith er mwyn mynd i'r afael â'r her sylweddol o fantoli'r gyllideb wrth barhau i gyflenwi'r gwasanaeth. Mae'r ymddiriedolaeth yn wynebu nifer o heriau o ran adnoddau ac arian wrth gydbwyso'r gwaith o drawsnewid dulliau cyflenwi'r gwasanaeth â pharhau i gyflenwi'r gwasanaeth. Ar y cyfan, mae trefniadau llywodraethu'r ymddiriedolaeth yn gadarn, a disgwylir i Raglen Diwygio'r Gwasanaeth Ambiwlans gael effaith gadarnhaol ar allu'r Ymddiriedolaeth i fodloni ei hamcanion a'i chynlluniau strategol.

Yn yr hunanasesiad, gwnaeth Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru nodi y byddai'n gwella trefniadau cynllunio ariannol ymhellach i sicrhau bod y gyllideb yn llwyr gydnaws â'r amcanion cyflenwi ac amcanion y gwasanaeth. Gwnaeth hefyd nodi bod fframwaith llywodraethu integredig diwygiedig wedi'i lunio i alluogi'r Bwrdd i ymateb yn ddynamig i'r amgylchedd sy'n prysur newid, tra'n sicrhau bod ansawdd a diogelwch yn parhau yn ganolog i'w fframwaith sicrhau ansawdd cyffredinol.

## Ymgysylltu

Aeth Kate Chamberlain, Prif Weithredwr AGIC, ynghyd â'r Rheolwr Perthynas, Sarah Jones, i gyfarfod Bwrdd Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 17 Gorffennaf 2014 i roi cyflwyniad ar yr hyn mae AGIC yn ei wneud, y broses adroddiad blynyddol a chyflwyno'r cysyniad o Reolwyr Perthynas yn AGIC.

Gwnaeth Kate Chamberlain a Sarah Jones gyfarfod â Sara Jones, Cyfarwyddwr Ansawdd a Nyrsio, a Jane Palin, Arweinydd Gwelliannau ac Ansawdd Arferion Clinigol, yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 13 Awst 2014.

Gwnaeth Kate Chamberlain a Sarah Jones gyfarfod â Phrif Weithredwr Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru, Tracy Myhill a'r Dirprwy Gadeirydd, John Morgan ar 23 Rhagfyr 2014 fel rhan o ymweliadau Kate â Byrddau Iechyd ac Ymddiriedolaethau Cymru yn ystod 2014-2015, er mwyn sefydlu a meithrin perthnasau.

Gwnaeth Sarah Jones ac Alison Kedward (Cyfarwyddwr Clinigol) AGIC gyfarfod â Wendy Herbert (Cyfarwyddwr Cynorthwyol Nyrsio) a Jane Palin (Arweinydd Gwelliannau ac Ansawdd Arferion Clinigol) o Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru ar 17 Chwefror 2015.

Mae'r cyfarfodydd hyn wedi ffurfio rhan o'r cyswllt parhaus â'r ymddiriedolaeth.

## Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Yn ystod 2014-2015, ni wnaeth AGIC ymgymryd ag unrhyw adolygiadau nac ymchwiliadau arbennig yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

## Ymweliadau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Ni wnaeth AGIC ymgymryd ag unrhyw arolygiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yn ystod 2014-2015.

## Gweithgarwch Arolygu

**Arolygiadau Urddas a Gofal Hanfodol mewn adrannau Damweiniau ac Achosion Brys**

| **Lleoliad** | **Dyddiad** |
|---|---|
| Maelor Wrecsam, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr | 30/09/14 |
| Nevill Hall, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | 03/12/14 |
| Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | 14/01/15 |
| Ysbyty Tywysoges Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg | 17/02/15 |

Dyddiad cynhyrchu: Gorffennaf 2015